RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 59/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 06/06/2023

# Agweddau'r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono, 2018 - 2022

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

1.1 Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ei rhoi ar waith ar 2il Mawrth 2020 a chyflwynodd isafbris, na all adwerthwyr alcohol gyflenwi alcohol yn is na hynny, o leoedd cymwys yng Nghymru. Amcan cyflwyno isafbris am alcohol yw helpu i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy leihau faint o alcohol y mae yfwyr niweidiol a pheryglus yn ei yfed.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn darparu canfyddiadau o ymatebion i gwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd rhwng 2018 a 2022 yn ymwneud ag agweddau ac ymddygiadau ynghylch yfed alcohol ac â chanfyddiadau o gyflwyno isafbris am alcohol. Fel rhan o ddatblygiad Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) Cymru 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yng nghylch 2014 o Arolwg Omnibws Cymru i ddeall yn well agweddau'r cyhoedd at alcohol ac isafbris a adroddwyd yn 2014[1]. Er mwyn hysbysu'r angen am dystiolaeth barhaus ynghylch gweithredu'r Ddeddf, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwestiynau pellach yng nghylch mis Medi 2018 a mis Mawrth 2020 o'r arolwg i ddeall agweddau at alcohol ac ymwybyddiaeth o'r cynlluniau a chyflwyno isafbris am alcohol yn y pen draw. Yn ogystal, comisiynwyd rowndiau pellach o gwestiynau mewn pum ton o'r arolwg omnibws rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022 i edrych ar ymddygiadau yfed yn ystod y pandemig COVID-19.

1.3 Roedd yr arolygon yn cynnwys cwestiynau yn ymwneud ag ymddygiad yfed megis amlder yfed alcohol, nifer yr unedau a yfir ar ddiwrnod arferol o yfed ac amlder goryfed mewn pyliau. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn caniatáu categoreiddio'r risg sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol unigolyn gan ddefnyddio Prawf Adnabod Anhwylder Defnydd o Alcohol Sefydliadau Iechyd y Byd - Yfed (AUDIT-C)[2]. Roedd arolygon 2018 a Mawrth 2020 hefyd yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud ag ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o'r cynlluniau, a chyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru yn y pen draw.

---

[1] Agweddau'r cyhoedd tuag at gyflwyno isafswm pris fesul uned o alcohol (llyw.cymru)

[2] Alcohol use disorders identification test for consumption (AUDIT C) (publishing.service.gov.uk)

1.4 Cyflawnodd yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018 a Mawrth 2020 samplau o 1015 a 713 o gyfweliadau yn y drefn honno a chawsant eu cynnal drwy ddulliau wyneb yn wyneb. O ystyried y cyfyngiadau ar waith maes o ganlyniad i bandemig COVID-19, defnyddiodd arolygon rhwng Mehefin 2020 a Mehefin 2022 lwyfan cyfnewid panel ar-lein, a llwyddodd pob un ohonynt i sicrhau meintiau sampl o 1000 o ymatebwyr o leiaf. Cafodd yr holl arolygon eu pwysoli i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru.

## 2. Canfyddiadau allweddol

### Ymddygiad Yfed

2.1 Mae data o'r arolwg yn dangos tystiolaeth o newidiadau mewn ymddygiad yfed, gyda gostyngiad yn nifer y rhai nad ydynt yn yfed o 26 y cant yn 2014 i 10 y cant yn 2022, tra bod y gyfran sy'n yfed o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos wedi cynyddu o 28 y cant i 38 y cant yn yr un cyfnod.

2.2 O ran nifer yr unedau a yfir ar ddiwrnod arferol o yfed, mae cyfran yr yfwyr sy'n yfed 1-2 uned ar ddiwrnod arferol wedi cynyddu o 29 y cant yn 2014 i 37 y cant yn 2022 tra bod y gyfran sy'n yfed 10 uned neu fwy wedi gostwng o 20 y cant i 13 y cant.

2.3 Wrth ystyried amlder y goryfed mewn pyliau, mae'r cyfrannau o yfwyr sy'n dweud eu bod yn goryfed mewn pyliau yn 'llai na misol' ac 'o leiaf bob wythnos' wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser, fodd bynnag mae'r gyfran sy'n nodi nad ydynt byth yn goryfed mewn pyliau wedi gostwng o tua thraean yr ymatebwyr yn 2014 i ychydig dros chwarter yn 2022.

2.4 Gan ddefnyddio'r ymatebion i'r cwestiynau yn ymwneud ag amlder yfed alcohol, nifer yr unedau a oedd yn cael eu hyfed ar ddiwrnod yfed arferol ac a adroddwyd eu bod yn goryfed mewn pyliau, roedd yn bosibl pennu lefelau'r risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad yfed. Rhwng 2014 a 2022 mae cyfran y nodwyd eu bod yn wynebu risg gynyddol neu uwch wedi cynyddu o 38 y cant i 45 y cant o ymatebwyr. Roedd dynion yn parhau i fod yn fwy tebygol o gael eu hadnabod fel yfwyr risg uwch neu gynyddol.

### Ymwybyddiaeth o Isafbris ar gyfer Alcohol

2.5 Rhwng 2014 a 2020, bu ymwybyddiaeth gynyddol o fesurau i gyflwyno isafbris am alcohol.

2.6 Roedd y rhai a nodwyd fel yfwyr risg cynyddol neu uwch yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o gyflwyno isafbris sef yr hyn a ddisgwylir i ryw raddau o ystyried eu bod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan ei gyflwyno. Mae'r rhai 16-34 oed yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o gyflwyno isafbris am alcohol o'i gymharu â grwpiau eraill.

### Cefnogaeth ar gyfer Isafbris am Alcohol

2.7 Yn gyson rhwng 2014 a 2020 mae'r arolygon wedi canfod bod cyfran uwch o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno isafbris am alcohol, gyda thystiolaeth y bu cynnydd cyffredinol mewn cefnogaeth, a gostyngiad yn y gwrthwynebiad, ers 2014.

2.8 Y rhesymau a roddwyd amlaf dros fod o blaid isafbris am alcohol oedd 'i atal pobl rhag yfed cymaint, rhoi'r gorau i oryfed mewn pyliau, meddwdod yn gyffredinol' ac 'annog pobl i yfed llai'. I'r gwrthwyneb, y rheswm a nodwyd amlaf dros fod yn erbyn y polisi oedd na fydd yn atal pobl rhag yfed ac y byddai'n gwneud yfed yn rhy ddrud.

2.9 Roedd y gwrthwynebiad i gyflwyno isafbris am alcohol ar ei uchaf ymhlith y rhai a nodwyd fel yfwyr 'risg cynyddol neu uwch'.

2.10 Mae'n bosibl bod y lefel gynyddol o gefnogaeth ar gyfer isafbris yn deillio o'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r cynigion, gan fynd i'r afael â chamsyniadau blaenorol ynghylch yr hyn y byddai cyflwyno isafbris am alcohol yn ei olygu.

### Canfyddiadau o effeithiau Isafbris am Alcohol

2.11 Mae canfyddiadau am effaith isafbris ar leihau troseddau wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2014 a 2020 gyda chyfran uwch o ymatebwyr yn anghytuno â’r datganiad ‘byddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn helpu i leihau trosedd yn y wlad hon’.

2.12 Yn yr un modd, mewn perthynas â’r datganiad ‘byddai codi pris cynhyrchion alcohol rhatach yn y siopau hyn yn lleihau afiechyd yn y wlad hon’ mae lefelau cytundeb wedi aros yn debyg rhwng 2014 a 2020, ond mae lefelau anghytuno â’r datganiad hwn wedi gostwng o 38 y cant yn 2014 i 32 y cant yn 2020.

2.13 O ran datganiadau na fyddai isafbris am alcohol yn gwneud unrhyw wahaniaeth i faint y mae pobl yn ei yfed ac na ddylai llywodraethau ymyrryd ag yfed pobl, mae lefelau cytundeb â’r ddau ddatganiad hyn wedi gostwng dros amser.

2.14 Roedd yr yfwyr hynny a oedd wedi'u hadnabod yn yfwyr cynyddol neu risg uwch yn fwy tebygol o anghytuno â'r datganiadau y byddai isafbris yn lleihau trosedd a phroblemau afiechyd ac yn fwy tebygol o gytuno na fyddai’n gwneud unrhyw wahaniaeth i faint y byddai pobl yn ei yfed ac na ddylai'r llywodraeth ymyrryd.

## 3. Casgliadau

3.1 Yng ngoleuni dadansoddi’r data a gasglwyd o’r arolygon hyn mae tystiolaeth bod newidiadau wedi bod mewn ymddygiad yfed a adroddwyd dros amser, yn yr un modd mae tystiolaeth o ymwybyddiaeth a chefnogaeth gynyddol i isafbris am alcohol dros amser.

3.2 Wedi dweud hynny, mae angen rhai cafeatau nodedig wrth ddehongli’r data hwn, yn enwedig data sy’n ymwneud ag ymddygiadau yfed a chymariaethau o ddata a gasglwyd yn ystod pandemig COVID-19 lle’r oedd ymddygiad pobl yn debygol o newid o ystyried cyflwyno cyfyngiadau ar gymdeithasu.

Awduron yr Adroddiad: Tom Cartwright

Adroddiad Ymchwil Llawn: Agweddau’r cyhoedd at isafbris am alcohol yng Nghymru ac ymwybyddiaeth ohono
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-isafbris-am-alcohol-yng-nghymru-ac-ymwybyddiaeth-ohono

Safbwyntiau’r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN **978-1-83504-024-9**